# At y Golygydd

*parhad o dudalen 13*

Llwynfaen
29 Conway Road
Mochdre
BAE COLWYN

31 Awst 2001

Annwyl Gyfaill,

Dyma fi'n anfon y cerddi coffa i Dafydd Hughes ac i Alyn Giles Jones, yn ôl fy addewid.

Gwelwch imi eu patrymu ar fesur Madog Gwynn Jones; y mesur a ddefnyddiodd yn ei benillion coffa 'In Memoriam' yn ei gyfrol *Manion* a'i gyfieithiadau o'r epigramau Groeg yn *Blodau o Hen Ardd*. Tipyn o newid yn lle englynion yn ddiddiwedd.

Yr oeddwn yn falch dros ben o gael eich teyrnged i Myfanwy Williams. Treuliais oriau lawer, a hynny hyd oriau mân y bore, yng nghwmni Tom a hithau a'u chwaer Gwladys.

Gan fod llygaid Tom mor wael, byddwn yn darllen llawer o lenyddiaeth Saesneg ac Athroniaeth iddo, a dysgu llawer felly. Saesneg ac Athroniaeth oedd ei brif bynciau gradd, a Chymraeg a Saesneg oedd fy mhrif bynciau innau.

Amgaeaf gopi o deyrngedau a luniais pan fu Tom a Myfanwy farw. Diamau eich bod wedi gweld y gyfrol *Cofio Mathonwy* a'm bod yn cyfeirio ynddi at Tom. Cefais drafferth ofnadwy i lunio'r ysgrif, gan fod fy llygad yn peri trafferth enbyd imi ar y pryd. Ofnaf imi lithro wrth gopio fy englyn olaf yn y gyfres i Mair. Fel hyn y dylai'r paladr ddarllen:

O'r trymwaith wedi'r tramwy – lle dôi *cawr*
Gallt-y-Coed, ceir arlwy…

Deallaf mai Gerallt Lloyd Owen sy'n gyfrifol am ddweud mai Mair a Mathonwy a'i hen gyfaill Dr. Gwilym Pari Huws sy'n sefyll o flaen y bws yng Ngarthewin. Mab y meddyg, sef Gwilym Pari Huws, sydd yn y darlun; un o'm cyfoedion yn yr ysgol gynt a aeth i'r môr ac a fu'n gapten ar longau mawr.



*Mair a Mathonwy gyda'u hen gyfaill Dr Gwilym Pari Huws yng Ngarthewin.*

Y mae'n syn i Gerallt fethu, oherwydd fe gyhoeddodd gyfrol o waith Gwilym Pari Huws rai blynyddoedd yn ôl. Peth arall sy'n gwneud y camgymeriad yn ddigrif yw fod Gwilym Pari Huws yn benfoel er yn ifanc iawn. Byddai'r llithriad wedi peri difyrrwch mawr i Gwilym ac i Math. Da gennyf eich bod yn ystyried cyhoeddi'r cerddi yn *Y Casglwr*.

Gyda'm cofion caredig a phob dymuniad da,

Derwyn Jones

## Cofio Athrawes

(Annie Myfanwy Williams, Pontllyfni a fu farw 27 Medi, 1998 yn 96 mlwydd oed)

Bu'n athrawes yn Ysgol Rhostryfan, lle y daeth dan ddylanwad W. Gilbert Williams, y prifathro, gyda'i bwyslais ar ddefnyddio'r Gymraeg yn gyfrwng addysg a chael y plant i ymddiddori yn hanes a diwylliant eu hardal. Yna, bu'n athrawes yn Ysgol Ganolraddol Pen-y-groes ac Ysgol Dyffryn Nantlle. Yr oedd yn aelod ffyddlon yn Soar, Pen-y-groes.

Ei dawn oedd dawn dewines, – a'i gofal
Dros gyfoeth hen hanes;
Ffrind gwiw a thriw athrawes,
A'i llaw hael dros blant a'u lles.

Derwyn Jones

(Dysgais lawer fel disgybl oddiwrthi. Gol.)

## Er Cof am Thomas Henry Williams, Y Berth Ddu, Pontllyfni

Cafodd yrfa amrywiol cyn dyfod i Fangor, yn fyfyriwr hŷn na'r cyffredin ac, wedi graddio mewn Saesneg ac Athroniaeth, bu'n dysgu am gyfnod ym Mangor a Bryn'refail, cyn troi i amaethu. Yr oedd yn feirniad craff ar farddoniaeth Gymraeg a Saesneg, ac elwais lawer ar ei gyfeillgarwch dros y blynyddoedd, yn enwedig pan oeddem yn gyd-fyfyrwyr, gynt.

Dôi'r achos dros ymdrechu, – amynedd
O'r miniog resymu;
Pwyllog, a'i ffydd heb ballu,
F'athronydd ar dywydd du.

Hwn a garai ragorwaith, – ei foddiant
Oedd celfyddyd berffaith;
Dôi gwefr o enaid y gwaith,
O'r cynnwys fel o'r ceinwaith.

Fe wybu ym mro'i febyd – am hir wae'r
Gymru hon a'i blinfyd;
Yfodd hyd frwysgedd hefyd
O win hen ein llên a'i hud.

Yn waddol nas heneiddir – mae llannerch
Mewn meillionog randir;
Lle yn y cof i'r llanc ir,
Lle cu i gyfaill cywir.

Derwyn Jones
codwyd o *Barddas*

## I Gofio Dau Gyfaill Dafydd Hughes, Llandudno

*(Llyfrwerthwr a Chasglwr)*

Diollwng gafael diwylliant.
Ni chiliodd Uwchaled plentyndod:
Hen werthoedd a lynodd wrtho
am oes o ddedwyddwch maith.

Tawelwch, a chwmni'r teulu'n ddeunydd
diddanwch mor gyson;
Pwy yno'n well na chwmpeini
llawn hwyl ei gyfeillion ei hun?

Gwelai trwy'r digywilydd, a'u llorio'n
gellweirus, ddidramgwydd;
Rhwydwaith ei graffter direidus
âi'n gwymp i'r diofal ei gam.

Â dawn diymffrost awenydd,
anwylai'r cyfrolau a gasglodd;
Glynodd eu treigl a'u hanes
i gyd yn ei galon a'i gof.

Ganwaith wrth drafod bargeinion
disyfyd y safai ac aros
Ennyd wrth droi'r tudalennau
a'i drem ar ryw geinder draw.

Diollwng gafael diwylliant.
Ni chiliodd Uwchaled plentyndod;
Hen werthoedd a lynodd wrtho
am oes o ddedwyddwch maith.

Derwyn Jones

## Alyn Giles Jones

Cyn-archifydd Prifysgol Cymru Bangor. Gwasanaethai, yn ei dro, wrth organ Carmel, Conwy.

Trefnus a chofus archifydd, dawnus
a doniol ddehonglwr
Astrus ddogfennau, a meistraidd
gamp mewn ysgrifen a gair.

Carodd bob crefftwaith cywrain, a grym
epigramau'r clasuron:
Arabus ddweud diarhebol,
a brath ffraethinebwyr bro.

Beunydd yn annibynnol, yn finiog
ni fynnai gyfaddawd;
Heriol a phendant ei eiriau,
di-ail ei chwerthiniad iach.

Organ a'i chân, a chynnil emynau'n
rhoi mwyniant, a'i ddwylo'n
Estyn gwasanaeth, a thystio
o'i fodd am a gafodd gynt.

Diymod, gywir gydymaith,
arhosodd trwy ddryswch pob newid
Yn gyfaill im ym mhob gofyn,
Yn gefn trwy'r blynyddoedd i gyd.

Derwyn Jones

## FFAIR LYFRAU'R CASGLWR

### Cynhelir Ffair Lyfrau, Printiadau a Hen Fapiau

Yn Ysgol Penweddig, Ffordd Llanbadarn, Aberystwyth
fore Sadwrn, 27 Ebrill o 10 o'r gloch tan 4.
Bydd llyfrwerthwyr o bob rhan o Gymru yno, ac os bydd gennych ddiddordeb i werthu eich llyfrau, bydd pob croeso i chi osod stondin yno. Codir £15 am bob stondin. Gadewch i'r Ysgrifennydd wybod os oes diddordeb gennych, neu cysylltwch ar (01970) 623 174